

## Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Caffael (Cymru) 2024

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan y Gyfarwyddiaeth Caffael a Masnachol ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

### Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Caffael (Cymru) 2024. Rwy'n fodlon bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

**Rebecca Evans AS**

**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, y Cyfansoddiad a Swyddfa'r Cabinet**  
11 Mehefin 2024

## RHAN 1

### Disgrifiad

- 1.1 Mae Deddf Caffael 2023 (“Y Ddeddf”) yn diddymu Rheoliadau caffael presennol yr UE ac yn gosod rheolau a gweithdrefnau newydd ar gyfer Awdurdodau Contractio Cymru (ACCau) pan fyddant yn dewis cyflenwyr a dyfarnu contractau sydd â gwerth uwchlaw ac islaw trothwyon penodol.
- 1.2 Bydd y Ddeddf hefyd yn darparu i'r DU fodloni ei rhwymedigaethau rhyngwladol ar gaffael cyhoeddus sydd wedi'u cynnwys mewn cytuniadau y mae wedi'u llofnodi gan gynnwys Cytundeb Sefydliad Masnach y Byd (WTO) ar Gaffael gan Lywodraethau (GPA), Cytundeb Masnach a Chydweithrediad yr UE a'r DU (TCA) a Phartneriaeth Gynhwysfawr a Blaengar y Môr Tawel (CPTPP).
- 1.3 Bydd y Ddeddf yn rheoleiddio'r broses gaffael a bydd ganddi ofynion i sicrhau tryloywder gwell o dan gyfundrefn hysbysu newydd a fydd yn rhychwantu cylch bywyd llawn caffael.
- 1.4 Gwneir y Rheoliadau hyn, sef “Rheoliadau Caffael (Cymru) 2024” o dan nifer o bwerau i Weinidogion Cymru sydd wedi'u cynnwys yn y Ddeddf ac maent yn darparu manylion a gofynion ychwanegol sy'n angenrheidiol i sicrhau gweithrediad y Ddeddf. Ar y cyd â darpariaethau'r Ddeddf, mae'r Rheoliadau wedi'u cynllunio i wella'r broses gaffael yng Nghymru.
- 1.5 Bydd y newidiadau sy'n cael eu cyflwyno drwy'r Rheoliadau hyn a'r Ddeddf Caffael gysylltiedig yn ysgogi mwy o ffocws ar gynllunio caffael a gwella'r ffordd y caiff contractau eu rheoli.
- 1.6 Mae'r Rheoliadau hyn yn cynnwys y manylion a ganlyn:
  - Bydd y Rheoliadau'n nodi'r gwasanaethau y gellir eu cyflenwi o dan gontract cyffyrddiad ysgafn, gan gynnwys gwasanaethau cyffyrddiad ysgafn neilltuadwy. Mae contractau cyffyrddiad ysgafn yn adlewyrchu'r ffaith bod angen trin gwasanaethau penodol yn wahanol, yn enwedig rhai sy'n canolbwyntio ar unigolion, ar ardal leol neu ar gymuned. Mae'r Rheoliadau hefyd yn darparu bod rhai contractau cyffyrddiad ysgafn yn cael eu "neilltuo" ar gyfer sefydliadau sy'n bodloni meini prawf penodol e.e. cwmnïau cydfuddiannol gwasanaethau cyhoeddus a mentrau cymdeithasol.
  - Diffiniadau o 'Awdurdod Llywodraeth Ganolog' a 'Gwaith' at ddibenion y trothwyon yn Atodlen 1 i'r Ddeddf.
  - Rheolau ar ddefnyddio'r plattform digidol canolog a phlattform digidol Cymru ar gyfer cyhoeddi hysbysiadau caffael.
  - Ffurf a chynnwys yr hysbysiadau caffael. Mae hyn yn cyfeirio'n bennaf at yr hysbysiadau tryloywder sy'n caniatáu i awdurdodau contractio fwrw ymlaen â phrosesau caffael drwy gydol cylch bywyd y broses gaffael mewn modd agored, tryloyw a llawn gwybodaeth. Mae'r hysbysiadau hyn fel a ganlyn:

- Hysbysiad Piblinell
- Hysbysiad Caffael wedi'i Gynllunio
- Hysbysiad Ymgysylltu Rhagarweiniol â'r Farchnad
- Hysbysiad Tendro
- Hysbysiad Marchnad Ddeinamig Cyfleustodau / Marchnad Ddeinamig, gan gynnwys Hysbysiad Marchnad Ddeinamig Cyfleustodau Cymwys
- Hysbysiad Tryloywder
- Hysbysiad Dod â Chaffaeliad i Ben
- Hysbysiad Dyfarnu Contract
- Hysbysiad Manylion y Contract
- Hysbysiad Cydymffurfio â Thaliadau
- Hysbysiad Perfformiad Contract
- Hysbysiad Newid Contract
- Hysbysiad Dod â Chontract i Ben
- Crynodebau asesu – darparu adborth i gyflenwyr.
- Darpariaethau Canlyniadol.
- Caffael o dan y trothwy.
- Datgymhwyso Adran 17 o'r Ddeddf (hysbysiau ymgysylltu rhagarweiniol â'r farchnad) i gyfleustodau preifat.

1.7 Gan ei bod yn ofynnol i'r Ddeddf a'r Rheoliadau weithio gyda'i gilydd, mae'r Memorandwm Esboniadol a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hyn yn ystyried effaith y Ddeddf Caffael a'r Rheoliadau hyn.

## **2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

2.1 Mae Deddf Caffael 2023 yn gymwys i Gymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, fodd bynnag, mewn rhai achosion mae gwahaniaethau (neu randdirymiadau) yn y ddeddfwriaeth ar gyfer Cymru a Gogledd Iwerddon. Bydd angen i Awdurdodau Contractio ddeall y gwahaniaethau / rhanddirymiadau hyn wrth lunio contractau yn ôl y gofyn neu sefydlu contractau o dan Fframweithiau neu Farchnadoedd Deinamig. Er enghraifft, os yw awdurdod contractio yn Lloegr yn dymuno defnyddio Fframwaith a roddwyd ar waith gan ACCau, yna bydd rheolau Cymru yn berthnasol, ac i'r gwrthwyneb, os yw ACC yn dymuno defnyddio trefniant Lloegr neu Ogledd Iwerddon yna bydd yn ddarostyngedig i'r rheolau hynny.

2.2 Mae'r Rheoliadau hyn yn mynd i'r afael â chamgymeriadau a nodwyd yn y rhai a osodwyd ar 30 Ebrill 2024 ac a dynnwyd yn ôl yn dilyn hynny.

## **3. Y cefndir deddfwriaethol**

3.1 Mae'r Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud gan Weinidogion Cymru wrth arfer y pwerau a roddir gan adrannau 9(2), 33(8), 69(4), 87 (7), 95 (1), (2) a (3), 97(1) a (2), 111(1), 121(1) a (2), 122(3) a 125(1) a (2), a pharagraff 5(1) o Atodlen 1 i Ddeddf Caffael 2023.

- 3.2 Mae Gweinidogion Cymru, yn unol ag adran 120(3) o'r Ddeddf, wedi—
- (a) ymgynghori ag unrhyw bersonau y maent yn ymddangos i'r Gweinidog eu bod yn cynrychioli safbwyntiau cyfleustodau preifat, a
  - (b) ymgynghori ag unrhyw bersonau eraill y mae'r Gweinidog o'r farn eu bod yn briodol, ar y ddarpariaeth sydd wedi'i chynnwys yn rheoliad 35.
- 3.3 Yn unol ag adrannau 9(3) a (4) o'r Ddeddf, mae Gweinidogion Cymru o'r farn ei bod yn briodol gwneud y Rheoliadau hyn, ar ôl ystyried y materion a restrir yn adran 9(4).
- 3.4 Y bwriad yw y bydd y rheoliadau hyn yn dod i rym yn gysylltiedig â darpariaeth sylfaenol o'r Ddeddf, sef Adran 11. Mae hyn yn adlewyrchu'r dull a fabwysiadwyd gan Lywodraeth y DU, a bydd yn osgoi unrhyw risg bosibl o ran diffyg sicrwydd cyfreithiol sy'n gysylltiedig â'r rhain yn dod i rym ar ddyddiadau gwahanol a'r rheoliadau cyfatebol yn Lloegr.
- 3.5 Yn unol â darpariaethau adran 122(10) o'r Ddeddf, bydd y weithdrefn gadarnhaol ddrafft yn gymwys i Reoliadau a wneir o dan adrannau 9, 33, 69, 87, 95, 97, 121, 124 (ond dim ond i'r graddau y mae'r Rheoliadau yn addasu deddfwriaeth sylfaenol), paragraff 5 o Atodlen 1.
- 3.6 Yn unol ag Adran 121(11) o'r Ddeddf, bydd y weithdrefn negyddol yn gymwys i Reoliadau a wneir o dan adran 124 i'r graddau y maent yn diwygio is-ddeddfwriaeth.
- 3.7 O dan adran 40 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019, gall darpariaeth sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol gael ei chyfuno yn yr un offeryn â darpariaeth sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft. O ganlyniad, bydd y weithdrefn gadarnhaol yn gymwys i'r Rheoliadau hyn.

#### **4. Diben y deddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael**

- 4.1 Mae'r dirwedd caffael cyhoeddus yng Nghymru yn esblygu. Gyda thros £8 biliwn yn cael ei wario ar gaffael cyhoeddus bob blwyddyn yng Nghymru, gall gwella'r ffordd y mae caffael cyhoeddus yn cael ei reoleiddio sbarduno arloesedd a chydnerthedd, a sicrhau manteision ar hyd a lled Cymru drwy gefnogi ein heconomi leol ac arbed arian i'r trethdalwr.
- 4.2 O safbwynt Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i harneisio cyfleoedd newydd a rhai sy'n bodoli eisoes ac i weithio gyda phartneriaid ledled Cymru a thu hwnt i ddatblygu dull modern a chynaliadwy o gaffael.
- 4.3 Bydd y newidiadau deddfwriaethol sy'n cael eu cyflwyno drwy'r Ddeddf Caffael a'r Rheoliadau cysylltiedig, Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a

Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 a Deddf Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru) yn helpu i gyflawni dyheadau Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru. Byddant yn cychwyn ffordd ymlaen newydd i Gymru a fydd yn galluogi'r sector cyhoeddus yng Nghymru i ysgogi pŵer caffael i gefnogi'r Gymru fwy cyfartal, gynaliadwy a llewyrchus yr ydym i gyd am ei gweld yn y dyfodol.

- 4.4 Datblygwyd y Memorandwm Esboniadol a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hyn mewn perthynas â Rheoliadau Caffael Llywodraeth Cymru ("y Rheoliadau") sy'n deillio o'r Ddeddf. Mae'r Rheoliadau hyn yn ofynnol i weithredu'r gyfundrefn caffael cyhoeddus newydd a sefydlwyd gan y Ddeddf. Felly, mae'r naratif sydd wedi'i gynnwys yn yr asesiad hwn hefyd yn ystyried yr hyn sydd wedi'i gynnwys yn y Ddeddf.
- 4.5 Prif amcanion polisi'r Rheoliadau yw:
- Creu system fasnachol symlach a mwy hyblyg sy'n diwallu ein hanghenion yn well ac yn cydymffurfio â'n rhwymedigaethau rhyngwladol ar yr un pryd.
  - Agor caffael cyhoeddus yng Nghymru i newydd-ddyfodiaid fel busnesau bach a mentrau cymdeithasol er mwyn iddynt allu gwneud cais am ragor o gontractau cyhoeddus.
  - Sicrhau tryloywder drwy gydol y cylch bywyd masnachol er mwyn gallu craffu'n briodol ar sut mae arian trethdalwyr Cymru yn cael ei wario.
- 4.6 Un ffactor allweddol ym mhenderfyniad Gweinidogion Cymru i ymuno â Bil Caffael Llywodraeth y DU oedd sicrhau sicrwydd, cysondeb a pharhad i awdurdodau contractio a chyflenwyr, yn enwedig Busnesau Bach a Chanolig (BBaChau) a Mentrau Gwirfoddol, Cymunedol a Chymdeithasol.
- 4.7 Bydd sicrhau'r cysondeb mwyaf posibl rhwng y rheolau caffael fel y maent yn gymwys yng Nghymru a Lloegr yn sicrhau tegwch i brynwyr a chyflenwyr ar ddwy ochr y ffin, gan ganiatáu ar gyfer gwahaniaethau datganoledig ar yr un pryd Mae'n bwysig pwysleisio y bydd methiant i gytuno ar y Rheoliadau hyn yn arwain at ganlyniadau negyddol sylweddol i gyflenwyr, ACCau a'r sector cyhoeddus ehangach yng Nghymru, ac y bydd yn niweidiol iddynt.
- 4.8 Mae'r Rheoliadau yn nodi'n bennaf fanylion yr hyn sydd ei angen mewn hysbysiadau caffael ac, os nad yw Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau i Gymru, yna ni fyddai ACCau yn gallu cyhoeddi hysbysiadau ac ni fyddai chyflenwyr yn cael eu hysbysu o gyfleoedd caffael newydd. Yn yr amgylchiadau hyn, ni fyddai Gweinidogion Cymru yn cydsynio i gychwyn darpariaethau'r Ddeddf a byddai angen gwneud y trefniadau i gadw'r Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 presennol mewn cysylltiad â chaffaeliadau cyhoeddus a ymglymerir gan ACCau. Bydd hyn yn creu system gaffael ddwy haen gyda rheolau caffael gwahanol ar waith yng Nghymru a Lloegr, a fydd yn achosi dryswch ac ansicrwydd i

gyflenwyr yng Nghymru, ac a allai arwain at gostau ychwanegol a diangen y gellir eu hosgoi.

4.9 Os bydd Gweinidogion Cymru, ar ôl methu â chytuno ar y Rheoliadau hyn, yn penderfynu ar ryw adeg yn y dyfodol i ddiwygio deddfwriaeth caffael yn yr un modd yng Nghymru, mae'n debygol iawn y bydd prynwyr a chyflenwyr yn y sector cyhoeddus yng Nghymru o dan anfantais o'u cymharu â'u cymheiriaid yn Lloegr o ganlyniad i beidio â chael y cyfle i wireddu manteision niferus diwygio caffael ehangach yn gynt.

4.10 Prif fanteision y gyfundrefn newydd yw:

- Ei gwneud hi'n haws cynnal busnes gyda'r sector cyhoeddus drwy leihau rhwystrau i Gymru a chael gwared arnynt, a chreu cyfleoedd ymgeisio mwy cystadleuol ar gyfer BBaChau yng Nghymru, a gwella'r rheolau talu'n brydlon.
- Creu system agored a thryloyw a fydd yn cryfhau atebolrwydd a chyfleoedd posibl i gydweithio.
- Cyflawni uchelgeisiau polisi caffael Cymru drwy awdurdodau contractio yng Nghymru yn rhoi sylw i Ddatganiad Polisi Caffael Cymru ("WPPS").

## **5. Sut bydd yr is-ddeddfwriaeth yn gwella'r sefyllfa bresennol;**

5.1 Bydd y Ddeddf a'r Rheoliadau ategol yn darparu'r manylion a fydd yn galluogi Cymru i gyflawni a gwella'r canlynol:

### **5.1.1 Mwy o dryloywder**

- Sicrhau tryloywder drwy gydol y cylch bywyd masnachol er mwyn gallu craffu'n briodol ar sut mae arian cyhoeddus yn cael ei wario.
- Bydd gan bawb fynediad at ddata caffael cyhoeddus.
- Bydd dinasyddion yn gallu craffu ar benderfyniadau gwario.
- Bydd cyflenwyr yn gallu nodi cyfleoedd newydd i wneud cynnig a chydweithio.
- Bydd prynwyr hefyd yn gallu dadansoddi'r farchnad a meincnodi eu perfformiad drwy gymharu ag eraill, er enghraifft ar eu gwariant gyda BBaChau. Bydd ganddynt hefyd y data sydd ei angen arnynt i gydweithio'n well, i hybu gwerth am arian ac i nodi a monitro gwerth cymdeithasol a manteision cymunedol yn eu prosesau caffael.
- Bydd gwell mynediad at wybodaeth fanwl yn helpu i fonitro am arwyddion o wastraff ac aneffeithlonrwydd a nodi llygredigaeth posibl. Bydd mynediad i'r wybodaeth well hon hefyd yn darparu gwell tystiolaeth ar gyfer penderfyniadau polisi sy'n ymwneud â chaffael yn y dyfodol.

### **5.1.2 Gwell i gyflenwyr**

- Mae dyletswydd benodol ar ACCau i roi sylw i'r rhwystrau penodol sy'n wynebu BBaChau, ac ystyried a oes modd dileu'r rhwystrau hynny neu eu lleihau.
- Mae'r Rheoliadau yn helpu i greu system sy'n symlach, yn fwy agored, teg a chystadleuol.
- Bydd hyn yn sicrhau cysondeb i gyflenwyr, gan sicrhau y gall busnes trawsffiniol â Lloegr barhau heb ddryswch.
- Mae gwell tryloywder yn golygu y bydd mwy o wybodaeth ar gael i gyflenwyr, er enghraifft, bydd y Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau contractio mawr gyhoeddi hysbysiad piblinell sy'n edrych i'r dyfodol am 18 mis ar gyfer cyfleoedd dros £2 filiwn.
- Bydd yna hefyd un platfform digidol i gyflenwyr gofrestru rhai o'u manylion unwaith, fel y gellir eu defnyddio ar gyfer cynigion lluosog.
- Bydd telerau talu 30 diwrnod yn gymwys ar draws cadwyni cyflenwi'r sector cyhoeddus - ni waeth a ydynt wedi'u hysgrifennu yn y contract. Bydd yn ofynnol i brif gontractwyr a allai fod yn gweithio gyda busnesau llai mewn cadwyni cyflenwi ddilyn y rheol hon.
- Ei gwneud yn haws cynnal busnes gyda'r sector cyhoeddus drwy greu cyfleoedd cyflwyno cynigion mwy cystadleuol ar gyfer BBaChau yng Nghymru, a gwella'r rheolau talu'n brydlon.

### **5.1.3 Darparu mwy o werth am arian**

- Wedi'i chefnogi gan fwy o dryloywder a dull bwrbasol at gaffael, bydd y Ddeddf yn rhoi mwy o hyblygrwydd i brynwyr ddylunio eu prosesau caffael a chreu mwy o gyfleoedd i drafod gyda chyflenwyr. Er enghraifft, mae'r weithdrefn hyblyg gystadleuol newydd yn golygu y bydd awdurdod contractio yn gallu dylunio ei broses gaffael ei hun; bydd hyn yn helpu i hybu arloesedd gan y bydd yn bosibl adeiladu fesul cam, megis arddangosiadau a phrototeipiau profi, lle bo hynny'n briodol.

### **5.1.4 Tendr Mwyaf Manteisiol**

- Mae'r Ddeddf yn galluogi contractau i gael eu dyfarnu ar sail y "Tendr Mwyaf Manteisiol", sy'n dileu unrhyw gamddealltwriaeth ynghylch pwysigrwydd pris mewn meini prawf dyfarnu ac yn rhoi sicrwydd i awdurdodau contractio y gellir dyfarnu tendrau ar ystod o feini prawf cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol.

### **5.1.5 Datganiad Polisi Caffael Cymru (WPPS)**

- Cyflwyno uchelgeisiau polisi caffael Cymru drwy ACCau gan roi sylw i'r WPPS.
- Ar hyn o bryd mae Gweinidogion Cymru yn cyhoeddi'r WPPS a fydd yn nodi'r blaenoriaethau strategol cenedlaethol ar gyfer

caffael. O ganlyniad i'r ddeddfwriaeth hon, bydd yn ofynnol i ACCau roi sylw i'r datganiad pan fyddant yn cynnal gweithgareddau caffael.

- Bydd hyn yn sicrhau bod ACCau yn ystyried blaenoriaethau polisi cyfredol yn eu prosesau caffael a byddant yn galluogi cyflenwyr i deilwra eu cynigion i gyd-fynd â hwy orau. Dylid eu nodi'n glir yn y dogfennau tendro ar gyfer pob caffaeliad.

#### **5.1.6 Gweithredu llymach**

- Bydd y Ddeddf yn ei gwneud yn haws eithrio cyflenwyr sydd wedi tanberfformio ar gontractau eraill. Bydd hefyd yn creu 'cofrestr waharddiadau' newydd, a fydd yn hygyrch i bob sefydliad sector cyhoeddus. Bydd y gofrestr yn rhestru cyflenwyr y mae'n rhaid eu hethrio, neu y gellir eu heithrio o gontractau.
- Bydd hefyd yn galluogi awdurdodau contractio i weithredu'n llymach yn erbyn cyflenwyr sy'n tanberfformio gan ei gwneud yn haws eithrio cyflenwyr sydd wedi tanberfformio ar gontractau eraill.

#### **5.1.7 Cryfhau rhesymau dros eithrio**

- Mae'r Ddeddf yn cryfhau'r rheolau i fynd i'r afael â chaethwasiaeth fodern drwy ganiatáu i gyflenwyr gael eu heithrio pan fo tystiolaeth o gaethwasiaeth fodern.

#### **5.1.8 Caffael brys effeithiol**

- Bydd y Ddeddf yn caniatáu prosesau cystadlu mwy tryloyw cyflymach ar gyfer prynu brys, gan leihau'r ddibyniaeth ar ddyfarniadau uniongyrchol gan gadw (a gwella) y gallu i weithredu'n gyflym mewn sefyllfaoedd tebyg i bandemig COVID.

#### **5.1.9 Sicrhau diogelwch gwladol**

- Y gallu i eithrio cyflenwyr o brosesau caffael os ydynt yn fygythiad i ddiogelwch gwladol.

#### **5.1.10 Cydymffurfio â rhwymedigaethau Masnach Ryngwladol**

- Bydd y Ddeddf o gymorth i sicrhau bod Awdurdodau Contractio o fewn y DU yn bodloni eu rhwymedigaethau masnach ar gaffael cyhoeddus sydd wedi'u cynnwys mewn cytuniadau y mae wedi eu harwyddo gan gynnwys Cytundeb Sefydliad Masnach y Byd (WTO) ar Gaffael gan Lywodraethau (GPA), Cytundeb Masnach a Chydweithrediad yr UE a'r DU (TCA) a Phartneriaeth Gynhwysfawr a Blaengar y Môr Tawel (CPTPP).

- Bydd o gymorth i sicrhau bod busnesau'r DU yn gallu parhau i fod yn llwyddiannus wrth gystadlu am gontractau cyhoeddus mewn gwledydd arall o amgylch y byd.

## **6. Sut y mae'r ddeddfwriaeth yn galluogi sectorau i weithredu'n fwy effeithlon?**

- 6.1 Bydd y Rheoliadau a'r Ddeddf Caffael gysylltiedig yn cael effaith bellgyrhaeddol y tu hwnt i dimau caffael a masnachol sefydliad. Bydd y newid mewn ymddygiad a diwylliant a gynhyrchir o ganlyniad i'r esblygiad mewn deddfwriaeth caffael yng Nghymru yn helpu ACCau i gyflawni eu hamcanion llesiant a'r saith nod llesiant cenedlaethol drwy wella caffael strategol, cynyddu arloesedd, cydweithio a gweithio ar draws sectorau, a chyflawni canlyniadau gwell i Gymru. Mae'r Rheoliadau'n canolbwyntio'n bennaf ar gynyddu tryloywder drwy gaffael, y mae ei fanteision allweddol wedi'u nodi ym mharagraff 5.1.1 uchod.

## **7. A fydd y ddeddfwriaeth yn gwella mynediad neu ganlyniadau ar gyfer rhannau o gymdeithas sydd o dan anfantais neu sydd wedi'u hallgáu;**

- 7.1 Bydd y Rheoliadau hyn a'r Ddeddf gysylltiedig, ochr yn ochr â'r Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) a Deddf Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru), yn plethu â'i gilydd i ddarparu fframwaith effeithiol ar gyfer caffael yng Nghymru a fydd, ochr yn ochr ag WPPS a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), yn sicrhau bod y sector cyhoeddus yng Nghymru yn gallu defnyddio caffael fel cyfrwng effeithiol i gyflawni canlyniadau cymdeithasol, diwylliannol, economaidd ac amgylcheddol, gan gynnwys gwaith teg.
- 7.2 Mae'r darpariaethau yn y Rheoliadau Caffael yn dechnegol eu natur i raddau helaeth, gan reoleiddio sut y mae prosesau caffael cyhoeddus yn cael eu cynnal. Mae natur y Rheoliadau hyn yn golygu bod eu heffaith ar gydraddoleb yn gyfyngedig, boed hynny'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol.
- 7.3 Fodd bynnag, mae'r Ddeddf Caffael yn darparu ar gyfer 'neilltuo' rhai contractau er mwyn i ddarparwyr cyflogaeth gefnogol yn unig allu cymryd rhan yn y broses gaffael. Mae darparwyr cyflogaeth gefnogol yn sefydliadau sy'n gweithredu er mwyn darparu cymorth sy'n gysylltiedig â chyflogaeth i unigolion anabl neu ddifreintiedig, ac y mae eu gweithlu'n cynnwys 30 y cant o bobl sy'n anabl neu dan anfantais. Drwy ddarparu ar gyfer amddiffyn contractau penodol ar gyfer y sefydliadau hyn, mae'r Ddeddf yn helpu i gau'r bwloch cyflogaeth rhwng gweithwyr sy'n anabl neu dan anfantais a gweithwyr eraill.
- 7.4 Er nad yw'r Rheoliadau na'r Ddeddf Caffael gysylltiedig yn gwneud unrhyw gyfeiriad uniongyrchol arall at unrhyw nodweddion gwarchoddedig, bydd yn ofynnol i ACCau roi sylw dyledus i WPPS. Dylai

ACCau ystyried sut y gallant ddefnyddio caffael cyhoeddus i gyflawni canlyniadau ychwanegol drwy'r gwaith caffael yr ydym yn ei wneud fel ei fod sicrhau gwerth am arian ac yn gysylltiedig â phwnc y contract. Amlinellir y canlyniadau ychwanegol hynny yn WPPS.

- 7.5 Nid yw'r Rheoliadau na'r Ddeddf Caffael gysylltiedig yn rhoi rhai pobl neu grwpiau o dan anfantais yn fwy nag eraill. Ni nodwyd unrhyw effeithiau neu rwystrau negyddol uniongyrchol neu anuniongyrchol ar bobl â nodweddion gwarchoddedig. Nodwyd manteision cadarnhaol fel yr amlinellir uchod.

## 8. Ymgynghori

- 8.1 Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol ar Offeryn Statudol (OS) Drafft Llywodraeth y DU gyda dogfennaeth ategol ddwyieithog yn esbonio'r rhanddirymiadau/gwahaniaethau arfaethedig i Gymru.

- 8.2 Roedd yr OS yn ddogfen dechnegol hir a chymhleth, ac felly cafodd ei rhannu'n ddwy ran:

- Roedd Rhan 1 yn cynnwys darpariaethau technegol a darpariaethau nad ydynt yn ymwneud â thryloywder yr OS ac roedd yn cyfeirio at feysydd o'r Ddeddf sy'n ei gwneud yn ofynnol i restrau, cyfrifiadau neu drothwyon gael eu defnyddio'n ymarferol. Ymgynghorwyd ar hyn dros gyfnod o chwe wythnos rhwng 19 Mehefin 2023 a 28 Gorffennaf 2023. Mae'r Ymgynghoriad ar Ran 1 i'w weld yma.

<https://www.llyw.cymru/ymgyngghoriad-cymru-ar-gaffael-cyhoeddus-is-ddeddfwriaeth-rhan-1>

- Roedd Rhan 2 yn canolbwyntio'n bennaf ar ddarpariaethau sy'n gysylltiedig â thryloywder yr OS. Roedd hyn yn cyfeirio'n bennaf at yr hysbysiadau tryloywder sy'n caniatáu i awdurdodau contractio fwrw ymlaen â phrosesau caffael drwy gydol cylch bywyd y broses caffael mewn modd agored, tryloyw a llawn gwybodaeth. Ymgynghorwyd ar Ran 2 dros gyfnod o chwe wythnos, gyda'r broses yn dechrau ar 17 Gorffennaf 2023 ac yn dod i ben ar 25 Awst 2023. Mae'r ymgynghoriad ar Ran 2 i'w weld yma. [Ymgynghoriad Cymru ar Reoliadau Caffael Cyhoeddus: Rhan 2 \(llyw.cymru\)](#)

- 8.3 Cynhaliodd swyddogion drafodaethau gyda rhanddeiliaid allweddol mewn perthynas â'r dull ymgynghori dwy ran, anfon llythyrau at randdeiliaid allweddol a'u rhannu'n eang drwy gylchlythyr.

- 8.4 Gofynnodd yr ymgynghoriad a oedd manylion technegol y drafftio yn gywir ac yn gyraeddadwy. Ni ofynnwyd am farn ar y polisi ei hun, sydd eisoes wedi'i sefydlu gan y Ddeddf.

- 8.5 Gofynnwyd cwestiynau gorfodol i'r ymatebwyr a gofynnwyd iddynt fanylu, lle bo'n berthnasol, os oeddent yn ateb "anghytuno" neu'n "anghytuno'n gryf" â'r cwestiwn a ofynnwyd o dan bob adran. Yn ogystal, roedd dau gwestiwn yn ymwneud â'r Gymraeg yn yr ymgynghoriadau.
- 8.6 Roedd rhannu'r ymgynghoriad yn ddwy ran olynol yn galluogi rhanddeiliaid i ystyried pob rhan ar wahân, gan wneud y dasg o roi adborth yn llai beichus.
- 8.7 Cafodd Llywodraeth Cymru ddeuddeg ymateb i ran gyntaf yr ymgynghoriad a deunaw ymateb i'r ail ran.
- 8.8 Cafwyd ymatebion gan amrywiaeth eang o randdeiliaid gan gynnwys Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar ran Awdurdodau Lleol Cymru, y Sector Addysg Uwch yng Nghymru, y sector tai cymdeithasol, tân, cyrff llywodraethol gan gynnwys Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, y byd academaidd a'r sector preifat.
- 8.9 Mae'r dogfennau ymgynghori a chrynodeb Llywodraeth Cymru o'r ymatebion wedi'u cyhoeddi yma - <https://www.llyw.cymru/ymgynghoriad-cymru-ar-reoliadau-caffael-cyhoeddus-rhan-1>  
<https://www.llyw.cymru/ymgynghoriad-cymru-ar-reoliadau-caffael-cyhoeddus-rhan-2>
- 8.10 Roedd yr adborth a ddaeth i law yn gadarnhaol ar y cyfan gyda'r ymatebwyr yn croesawu'r cyfle i roi eu barn. Cafwyd cytundeb cyffredinol i'r rhan fwyaf o'r cynigion yn yr ymgynghoriad.
- 8.11 Mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU wedi gweithio'n agos ar ddatblygu'r Ddeddf Caffael a'u hofferynnau statudol priodol er mwyn sicrhau'r cysondeb mwyaf posibl rhwng y ddeddfwriaeth ac i leihau'r risg o unrhyw wahaniaethau posibl. Bydd sicrhau'r cysondeb mwyaf posibl rhwng y rheolau caffael fel y maent yn gymwys yng Nghymru a Lloegr yn cael yr effaith o sicrhau tegwch ar gyfer prynwyr a chyflenwyr ar ddwy ochr y ffin. O ganlyniad i hynny, mae newidiadau wedi eu gwneud i ran rhannau o'r OS Cymraeg er mwyn sicrhau y bydd y cysondeb hwn yn parhau, gan ganiatáu ar gyfer gwahaniaethau datganoledig ble bo'n briodol.

## **RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL**

### **9. Asesiad Effaith Rheoleiddiol**

- 9.1 Gan fod angen i'r Ddeddf a'r Rheoliadau weithio gyda'i gilydd, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn ystyried effaith y Ddeddf Caffael a'r Rheoliadau hyn.
- 9.2 Mae Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i gwblhau ar gyfer y Rheoliadau Caffael, ac fe'i nodir isod.

- 9.3 Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn rhoi'r amcangyfrif gorau o gostau a manteision y Rheoliadau ar sail y dystiolaeth sydd ar gael. Mae'r dadansoddiad wedi'i lywio gan ddata a gymerwyd o Gwerthwchi Gymru, sy'n ffynhonnell wybodaeth ac yn borth caffael. Dyma'r porth hysbysebu cenedlaethol lle mae sefydliadau'r sector cyhoeddus yng Nghymru yn rhannu eu cyfleoedd contract ac yn rheoli eu cyfleoedd tendro. Gall cyflenwyr ddod o hyd i gyfleoedd, hyrwyddo eu gwasanaethau, a chynnig am gyfleoedd. Mae'n cael ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru ac mae cyflenwyr a phrynwyr yn gallu ei ddefnyddio yn rhad ac am ddim.
- 9.4 Bu'n rhaid gwneud cyfres o ragdybiaethau er mwyn cwblhau'r cyfrifiadau oherwydd nad oedd digon o ddata ar gael. Mae unrhyw ragdybiaethau a wnaed yn cael eu hesbonio yn y naratif. Oni nodir yn wahanol, mae'r holl gostau wedi cael eu talgrynnu i'r £100 agosaf. Mae'n bosibl na fydd rhai o'r ffigurau yn dod i gyfanswm taclus oherwydd y talgrynnu hyn.
- 9.5 Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn yn ystyried costau amcangyfrifedig dros y cyfnod rhwng 2024 a 2025.

## Yr Opsiynau

### 10. Opsiwn 1: Busnes fel arfer (Gwneud Dim Byd)

- 10.1 Byddai gwneud dim yn golygu na fyddai Gweinidogion Cymru yn bwrw ymlaen â'r pwerau sydd wedi'u cynnwys yn Neddf Caffael 2023. Yn y pen draw, byddai hyn yn achosi darpariaethau'r Ddeddf i fod yn anymarferol heb y Rheoliadau oherwydd, os nad yw Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau, yna ni fyddai ACCau yn gallu cyhoeddi hysbysiadau ac ni fyddai cyflenwyr yn cael gwybod am gyfleoedd caffael newydd.
- 10.2 O dan yr amgylchiadau hyn, ni fyddai Gweinidogion Cymru yn cydsynio i gychwyn darpariaethau'r Ddeddf ar gyfer ACCau. Os bydd hyn yn digwydd, gall Llywodraeth y DU gychwyn y Ddeddf mewn perthynas ag awdurdodau contractio heb eu datganoli a gwneud darpariaeth i sicrhau nad yw'r Ddeddf yn rheoleiddio caffael gan ACCau a bod y Rheoliadau Caffael presennol yn parhau i reoleiddio caffael gan ACCau. Ni fydd yn bosibl cychwyn y Ddeddf mewn perthynas â chaffael gan ACCau yn y dyfodol.
- 10.3 Byddai hyn wedyn yn golygu y byddai tair cyfundrefn wahanol yn y DU – byddai'r awdurdodau contractio yn Lloegr a Gogledd Iwerddon yn dilyn Deddf Caffael newydd 2023, mae gan yr Alban ei Deddf Diwygio Caffael (Yr Alban) 2014 ei hunan a byddai Cymru o dan y Rheoliadau Caffael presennol.
- 10.4 Ni fyddai'r opsiwn hwn yn golygu fawr ddim newid i arferion caffael cyfredol ond byddai angen i ACCau barhau i ddilyn Rheoliadau newydd Llywodraeth y DU a'r Ddeddf Caffael pan fyddant yn caffael o dan fframweithiau ("llunio contractau yn ôl y gofyn") neu farchnadoedd

deinamig a sefydlwyd gan awdurdodau contractio Lloegr. Byddai hyn yn cael effaith sylweddol oherwydd, er enghraifft, roedd gwerth contractau yn ôl y gofyn a luniwyd o dan fframweithiau Gwasanaethau Masnachol y Goron gan ACCau dros £295miliwn yn 2022/23.

10.5 Yn y dyfodol, gallai fod potensial i Lywodraeth Cymru greu ei Deddf ei hunan. Fodd bynnag, mae hyn yn codi dau brif fater:

1. Gallai'r Ddeddf Gymreig yn y pen draw fod yr un fath â Deddf Llywodraeth y DU a fyddai wedyn yn wastraff amser ac adnoddau.
2. Gallai Llywodraeth Cymru greu cyfundrefn newydd sy'n wahanol i weddill y DU. Byddai hyn yn dibynnu ar yr amcanion gwleidyddol ar y pryd ond yn y pen draw byddai'n arwain at gynlluniau gwahanol, gan achosi materion trawsffiniol a gwireddu'r risgiau a nodir isod.

10.6 Mae Opsiwn 1 yn cynnwys nifer o risgiau (os cedwir y Rheoliadau caffael presennol neu Lywodraeth Cymru yn datblygu ei Deddf ei hun), y rhai allweddol yw:

- Diffyg cysondeb a sicrwydd i ACCau a chyflenwyr, yn enwedig y rhai sy'n cynnal busnes ar draws y ffiniau. Byddai rheolau gwahanol rhwng Cymru a Lloegr, sy'n golygu y gallai cyflenwyr ddrysu ynghylch pa reolau sy'n gymwys a sut i ddarparu nwyddau, gwasanaethau neu waith dros y ffin. Gallai hyn beri i gyflenwyr beidio â chyflwyno cynnig am gontractau yng Nghymru o ystyried nad oes gan Gymru yr un pŵer prynu â Lloegr.
- Mae marchnad Cymru yn dod yn bosibilrwydd busnes anatyniadol os yw'r gweithdrefnau yng Nghymru yn wahanol i'r rhai yn Lloegr. Byddai'r gweithdrefnau yng Nghymru yn fwy beichus na'r rhai yn Lloegr, felly gall y gofynion ychwanegol beri i gyflenwyr beidio â chyflwyno cynnig.
- Datgysylltu rhanddeiliaid oherwydd, yn gyffredinol, byddent yn dymuno cadw'r un rheolau â Lloegr.
- Risgiau i enw da sy'n gysylltiedig â'r gwaith sylweddol a wnaed hyd yma ar ddiwygio deddfwriaeth caffael yng Nghymru ac yna peidio â bwrw ymlaen â hi. Byddai hyn yn arwain at ddiffyg hyder gan randdeiliaid ym mhenderfyniadau Llywodraeth Cymru. Byddai risg hefyd i enw da ein perthynas â Llywodraeth y DU. Mae'r berthynas wedi bod yn gadarnhaol, ar lefelau swyddogol a Gweinidogol ac mae'n debygol y byddai dilyn opsiwn 1 yn cael effaith negyddol ar ein perthynas â Llywodraeth y DU wrth symud ymlaen.
- Nid yw'n glir sut y byddai systemau yng Nghymru yn gweithio gyda rhai Llywodraeth y DU ar faterion trawsbynciol, megis cynigion ar safonau data digidol, gwaharddiadau canolog a dim gwahaniaethu.
- Nid yw'n glir sut y byddai gwahaniaeth yn effeithio ar gyrff a gadwyd yn ôl sy'n gweithredu yng Nghymru e.e. y rhai sy'n dymuno prynu o dan fframweithiau caffael Cymru.
- Mae'n aneglur a fyddai ACCau yn parhau i gael mynediad at Fframweithiau Llywodraeth y DU. Byddai'r risg o beidio â chael

mynediad i Fframweithiau Llywodraeth y DU yn cael effaith negyddol sylweddol ar adnoddau a phŵer prynu ACCau. Gallai hyn hefyd effeithio ar ddatblygiad economaidd yng Nghymru, y gallu i ddenu cyflenwyr a/neu arbedion maint wrth i Gymru elwa ar well manteision masnachol o ddefnyddio rhai o Fframweithiau Llywodraeth y DU.

- Nid yw'n glir a fyddai'r cysylltiadau rhwng Gwerthwchi Gymru a'r plattform canolog yn gweithio'n effeithlon ac yn effeithiol. Os na, ac nid oedd ACCau yn gallu cyhoeddi hysbysiadau ar y plattform canolog, yna byddai risg y byddant yn torri'r rhwymedigaethau hyn mewn Cytundebau Rhyngwladol.

#### 10.7 Byddai'r opsiwn hwn hefyd yn arwain at golli cyfleoedd, megis:

- Digidol – byddai gwaith a wneir ar hyn o bryd ar y systemau sy'n cael eu datblygu i gefnogi'r ddeddfwriaeth gaffael newydd, gan gynnwys yr hysbysiadau caffael, casglu data, etc yn cael ei golli i Gymru. Mae'n debygol y byddai hyn yn achosi problemau integreiddio rhwng Systemau Cymru a Llywodraeth y DU.
- Tryloywder – byddai cyfle i ymgorffori tryloywder ar draws y cylch bywyd masnachol yn cael ei golli. Byddai'r tryloywder cynyddol hwn yn golygu y gallai holl ddinasyddion Cymru graffu ar wariant arian cyhoeddus yn briodol, byddai cyflenwyr yn gallu nodi cyfleoedd newydd i gyflwyno cynnig a chydweithio, byddai prynwyr yn gallu dadansoddi'r farchnad a meincnodi eu perfformiad yn erbyn eraill, a bydd gan Lywodraeth Cymru well tystiolaeth i wneud penderfyniadau polisi sy'n ymwneud â chaffael yn y dyfodol.
- Dysgu a Datblygu – O dan y trefniant cyfredol, mae Llywodraeth y DU yn creu cynhyrchion dysgu a datblygu ar gyfer y sector cyhoeddus. Mae Cymru wedi cael mynediad i'r cynhyrchion hyfforddi hyn, a ategir gan hyfforddiant dwyieithog penodol Cymreig (modiwlau eDdysgu ychwanegol) gan Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r newidiadau ehangach i'r tirwedd caffael yng Nghymru. Byddai Opsiwn 1 yn arwain at golli cyfle i uwchsgilio gweithwyr proffesiynol caffael yng Nghymru.

#### 10.8 Ni argymhellir Opsiwn 1 oherwydd y risgiau a'r cyfleoedd coll a nodir uchod ac oherwydd nad yw'n bodloni'r amcanion polisi ar gyfer diwygio caffael yng Nghymru fel y manylir ym mharagraff 4.5 uchod. Mae Opsiwn 1 hefyd yn peri'r risg na fydd caffael cyhoeddus, heb oruchwyliaeth ychwanegol, yn cydymffurfio ac yn cyd-fynd â rhwymedigaethau masnach ryngwladol.

## 11. Costau a manteision – Opsiwn 1: Gwneud dim

11.1 Mae gan opsiwn un y costau posibl a ganlyn:

- **Ailymgysylltu â'r sector cyhoeddus** – pe na wneir dim, byddai angen i Lywodraeth Cymru ymgymryd â chyfres newydd o gyhoeddiadau, cylchlythyrau a gweminarau i egluro pam yr ydym wedi penderfynu cadw'r ddeddfwriaeth bresennol. Byddai angen i'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol hefyd gyhoeddi Datganiad Ysgrifenedig.
- **Diwygiadau i'r porth ar-lein** – byddai angen i'r tîm digidol gysylltu â Llywodraeth y DU ynghylch integreiddio â'r plattform canolog a diwygio'r gofynion hysbysu, etc ar gyfer Cymru.
- **Costau cyfreithiol** – Fe'u hysgwyddir gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, os na fydd y Ddeddf yn cael ei chychwyn ar gyfer ACCau.
- **Datblygu deddfwriaeth** – byddai'r cyllid a'r costau ar gyfer adnoddau i ddatblygu'r ddeddfwriaeth hyd yma wedi cael eu gwastraffu. Costau adnoddau yw'r uchod ac nid costau uniongyrchol i Lywodraeth Cymru. Nid yw'n bosibl rhag-weld beth fyddai'r costau gwirioneddol.
- **Costau hyfforddi** – gweler isod.

11.2 Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth y DU yn ariannu datblygiad y rhaglen Dysgu a Datblygu gynhwysfawr ar gyfer diwygio caffael, gan gynnwys ACCau, a byddant yn cynnal rhai ar eu plattform e-Ddysgu ac yn hwyluso cyrsiau rhyngweithiol dan arweiniad tiwtoriaid i'r rhai sydd angen dod yn arbenigwyr ar weithredu o dan y gyfundrefn newydd.

11.3 Fodd bynnag, o dan opsiwn 1, ystyrir na fyddai angen darpariaeth Dysgu a Datblygu Llywodraeth y DU ar gyfer ACCau. Yn hytrach, byddai angen i Lywodraeth Cymru ddarparu ei e-Ddysgu ei hunan, sy'n debygol o gynnwys hyd at chwe modiwl a fyddai'n cael eu hanelu at ymarferwyr caffael a masnachol Cymru, a phersonél eraill sy'n ymgymryd â gweithgarwch caffael yn rheolaidd neu sydd angen dealltwriaeth ddyfnach o'r tirwedd deddfwriaethol caffael yng Nghymru.

11.4 Byddai'r e-Ddysgu wedi'i gynllunio i helpu ACCau i ddeall sut y bydd y ddeddfwriaeth gaffael bresennol yn cysylltu â'r Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) a Deddf Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru). Bydd hefyd yn amlygu o dan amgylchiadau y mae angen i ACCau ddilyn y Ddeddf Caffael, h.y. os ydynt yn llunio contractau yn ôl y galw o dan Fframwaith neu Farchnad Ddeinamig sydd wedi'i sefydlu gan awdurdod contractio nad ydynt wedi'u cadw yn ôl. Amcangyfrifir mai cost datblygu'r pecyn eDdysgu yw £9,400.

11.5 Yn ogystal â'r eDdysgu, mae rhai o'r trosleisiau ar gyfer Deunyddiau Gwybodaeth Llywodraeth y DU eisoes wedi'u recordio gan staff Llywodraeth Cymru felly bydd yr amcangyfrif o £100.00 (gweler Atodiad 1) yn cael ei ysgwyddo beth bynnag.

11.6 Mae'r gost amcangyfrifedig i ACCau ymgymryd â'r hyfforddiant hwn oddeutu £248,000. Mae'r dadansoddiad manwl o'r holl gostau amcangyfrifedig i Gymru ar gyfer Opsiwn 1 i'w gweld yn Atodiad 1.

## 12. CRYNODEB O'R COSTAU CYFFREDINOL A AMCANGYFRIFIR – OPSIWN 1

Mae'r holl gostau a restrir isod yn eithrio TAW

### Cyfanswm y costau Dysgu a Datblygu

Cost y Deunyddiau Gwybodaeth (trosleisio)	£100.00
Cost yr E-Ddysgu	£9,400
<b>Cyfanswm y Gost Dysgu a Datblygu</b>	<b>£9,500</b>

### Cyfanswm y gost i ACCau fynychu hyfforddiant

Hyfforddeion eDdysgu	£248.300
<b>Cyfanswm Costau Cyffredinol Opsiwn 1</b>	<b>£257,800</b>

## 13. Opsiwn 2: Gwneud Is-ddeddfwriaeth

13.1 Byddai Opsiwn 2 yn golygu y byddai Gweinidogion Cymru yn bwrw ymlaen â'r pwerau sydd wedi'u cynnwys yn y Ddeddf drwy is-ddeddfwriaeth. Byddai hyn yn arwain at gychwyn darpariaethau'r Ddeddf ar gyfer ACCau, ac felly'n galluogi rhanddeiliaid i wireddu'r holl fanteision a ddaw yn sgil y ddeddfwriaeth (gweler paragraff 5.1 uchod i weld y rhestr lawn o fanteision).

13.2 Bydd yr is-ddeddfwriaeth yn arwain at:

- Weithredu gweithdrefnau caffael newydd, gan roi mwy o hyblygrwydd i brynwyr a chyfleoedd i sicrhau gwell canlyniadau masnachol.
- Tryloywder – cynnydd sylweddol yn lefel tryloywder prosesau caffael a fydd yn galluogi data mwy penodol i gael eu casglu. Bydd hefyd yn cynorthwyo cyflenwyr yn y broses cyflwyno cynigion.
- Platfformau digidol – bydd Cymru'n defnyddio porth GwerthwchiGymru, a fydd yn cysylltu â Phlatfform Canolog Llywodraeth y DU, bydd hyn yn gwella hysbysiadau a'r dull o gasglu data ac yn hwyluso'r broses ar gyfer cyflenwyr a phrynwyr.
- Buddsoddi mewn hyfforddiant – bydd ACCau yn gallu cael mynediad at ystod o hyfforddiant yn dibynnu ar eu rôl a'u gofynion, gan arwain at well dealltwriaeth o'r Rheoliadau caffael newydd a hefyd helpu i uwchsgilio defnyddwyr ar draws sector cyhoeddus Cymru.
- Mae amcanion polisi yn cael eu bodloni gan fod y Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i ACCau roi sylw i WPPS.

- Cyflenwyr yn cynnig atebion mwy arloesol drwy'r prosesau caffael newydd.
- Arbedion amser y gellir eu cyflawni drwy weithdrefnau symlach.
- Arbedion amser i gyflenwyr nad oes rhaid iddynt ddarparu gwybodaeth "graidd" bob tro y maent yn dymuno tendro am gyfle. Dim ond unwaith y bydd angen i gyflenwyr ddarparu'r wybodaeth hon (a'i diweddarau pan fo angen) yn y Platfform Digidol Canolog.

### 13.3 Risgiau

- Gallai gofynion hysbysu ychwanegol lethu timau caffael ac felly ni fyddant yn eu cyhoeddi ac yn torri'r ddeddfwriaeth.
- Nid yw ymarferwyr caffael yn croesawu'r hyblygrwydd newydd ac felly'n dychwelyd at ddefnyddio gweithdrefnau cyfarwydd, e.e. peidio ag ymgorffori prototeipiau profi yn y broses gaffael lle gallai hyn fod o fudd i gyflawni'r canlyniad masnachol gorau.

## 14. Costau a manteision - Opsiwn 2: Gwneud Is-ddeddfwriaeth

- 14.1 Mae'n debygol y bydd nifer o gostau yn gysylltiedig â diwygio caffael cyhoeddus yng Nghymru. Maent yn cynnwys costau uniongyrchol i Lywodraeth Cymru sy'n gysylltiedig â datblygu a darparu rhaglen Dysgu a Datblygu, yn ogystal â chostau sy'n gysylltiedig â gwella systemau e-gaffael.
- 14.2 Bydd y rhan fwyaf o'r costau hyn yn cael eu talu o fewn y cyllidebau presennol. Er enghraifft, dyrannwyd refeniw ychwanegol i'r systemau eGaffael a ariennir gan Lywodraeth Cymru i alluogi'r systemau a ddarperir gan Lywodraeth Cymru naill ai i gael eu gwella neu i gaffael swyddogaethau newydd yn barod ar gyfer cyflwyno'r diwygiadau caffael.
- 14.3 Bydd angen uwchraddio GwerthwchiGymru hefyd ar gyfer y ddeddfwriaeth gaffael newydd. Mae hyn yn cael ei wneud o dan gyllideb ar wahân busnes fel arfer o fewn Llywodraeth Cymru. Amcangyfrifir y bydd hyn yn costio £350mil. Sylwer, nid yw'r gost hon yn hysbys eto felly mae'r amcangyfrif yn seiliedig ar waith datblygu blaenorol a wnaed ar system GwerthwchiGymru.
- 14.4 Bydd costau uniongyrchol hefyd i ACCau i weithredu'r Rheoliadau newydd gan y bydd angen iddynt gyhoeddi hysbysiadau caffael ychwanegol. Mae ACCau eisoes yn cyhoeddi hysbysiadau caffael ar GwerthwchiGymru, felly dim ond y gofynion hysbysu newydd fydd yn arwain at amser a chost ychwanegol. Mae'n anodd asesu'r amserlenni a'r costau hyn gan nad yw'n hysbys faint o hysbysiadau newydd fydd yn cael eu cyhoeddi a pha mor hir y bydd yn ei gymryd i'w llunio. Er mwyn lleihau'r heriau gweinyddol a'r dyblygu diangen ar gyfer ACCau, y bwriad yw dylunio system GwerthwchiGymru fel y bydd llawer o'r wybodaeth sydd ei

hangen ar gyfer yr hysbysiadau yn cael ei llenwi ymlaen llaw drwy ddefnyddio dynodwr unigryw a roddir i bob caffaeliad. Felly nid yw'n bosibl cynnwys costau manwl ar gyfer yr elfen hon.

- 14.5 Bydd costau i ACCau mewn perthynas â'r angen i newid gweithdrefnau mewnol / rheolau sefydlog. Bydd y costau uniongyrchol hyn yn cynnwys elfennau megis ailddrafftio a diweddarau polisïau, gweithdrefnau, templedi, cyfieithu, prosesau cymeradwyo, ac ati. Bydd gwir gost pob ACC yn amrywio, gan fod llawer o ddibyniaethau fel pa mor fawr ydyw, yr hyn y mae eu rheolau sefydlog yn ei ddweud nawr (h.y. efallai na fydd angen newid rhai cymaint ag eraill), bydd casglu gwybodaeth ar hysbysiadau piblinell yn dibynnu ar faint yr awdurdod contractio, efallai y bydd rhai yn casglu'r data hwn eisoes, etc. Felly, nid yw cynnwys costau manwl ar gyfer yr elfen hon yn bosibl.
- 14.6 Bydd costau anuniongyrchol hefyd i ACCau sy'n gysylltiedig ag uwchsgilio timau caffael ac unrhyw aelodau o staff sy'n ymgymryd â dyletswyddau caffael / rheoli contractau yn y Rheoliadau a'r systemau e-gaffael newydd. Ceir rhagor o wybodaeth am hyn isod, ac mae dadansoddiad manwl o'r costau hyn ar gael yn Atodiad 2.
- 14.7 Bydd manteision hefyd i gyflenwyr fel y manylir arnynt yn 5.1.2 uchod.

## **15. Y Costau Dysgu a Datblygu**

- 15.1 Y brif gost fydd y pecyn hyfforddi sylweddol, a bydd y rhan fwyaf ohono'n cael ei ddarparu cyn i'r ddeddfwriaeth gychwyn. Mae Llywodraeth y DU yn ariannu hyn yn bennaf, ond mae Llywodraeth Cymru yn cynhyrchu hyfforddiant atodol a fydd yn tynnu sylw at wahaniaethau a rhanddirymiadau o Reoliadau Llywodraeth y DU. Bydd hefyd yn ymdrin ag unrhyw gysylltiadau perthnasol â'r Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru), Deddf Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru) a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).
- 15.2 Darperir gwybodaeth am y costau hyfforddi isod:

## **16. Deunyddiau Gwybodaeth**

- 16.1 Bydd y 'Deunyddiau Gwybodaeth' hyn yn cael eu darparu a'u hariannu gan Lywodraeth y DU a fydd yn sicrhau eu bod ar gael i unrhyw un sydd angen meithrin lefel o ddealltwriaeth o'r ddeddfwriaeth newydd. Maent wedi'u cynllunio i ddarparu trosolwg lefel uchel o'r Rheoliadau caffael ac maent wedi'u teilwra i gynulleidfaoedd gwahanol. Bydd fersiynau ar wahân ar gyfer awdurdodau contractio, cyflenwyr, Mentrau Gwirfoddol, Cymunedol a Chymdeithasol a BBaChau.
- 16.2 Maent yn fideos addysgiadol sy'n cael eu cynnal ar gov.uk ac YouTube a gellir eu gweld ar unrhyw adeg. Fe'u lanswyd ym mis Rhagfyr 2023 ac maent ar gael i'r cyhoedd yn gyffredinol, arweinwyr anfasnachol, cyflenwyr a phersonau eraill sydd â diddordeb yn y ddeddfwriaeth newydd ac sydd

am wella eu gwybodaeth gaffael a'u lefel gyffredinol o ymwybyddiaeth o'r rheolau newydd.

- 16.3 Nid yw'n bosibl cyfrifo'r gost adnoddau hon gan nad yw'n hysbys faint o gyflenwyr a/neu unigolion all gael mynediad at y Deunyddiau Gwybodaeth hyn.
- 16.4 Mae Llywodraeth y DU yn cynhyrchu'r deunyddiau gwybodaeth hyn felly ni fydd cost i Lywodraeth Cymru am yr elfen hon. Mae Llywodraeth Cymru wedi trosleisio peth o'r deunyddiau gwybodaeth gan fod Llywodraeth y DU eisiau ystod amrywiol o acenion rhanbarthol i fynd i'r afael â'r gymuned rhanddeiliaid.
- 16.5 Cymerodd y gwaith trosleisio hyn oddeutu 4 awr o amser dau swyddog Llywodraeth Cymru ac amcangyfrif y costau hyn sydd wedi'u talu yw £84.80.

## **17. eDdysgu**

- 17.1 Dyma'r cynnyrch hyfforddiant craidd, a fydd yn agored i bob ymarferydd caffael a masnachol perthnasol gan awdurdodau contractio (ac unigolion enwebedig sy'n ymgymryd â gweithgarwch caffael yn rheolaidd ar ran awdurdodau contractio). Fe'i cynlluniwyd i gwmpasu'r holl wybodaeth a dealltwriaeth berthnasol o elfennau gwahanol y gyfundrefn newydd.
- 17.2 Bydd hyn ar gyfer ymarferwyr medrus, ac fe'i cynlluniwyd i ddarparu sylfaen ym mhob elfen o'r Rheoliadau caffael newydd. Bydd mynediad atynt ar safle Coleg Masnachol Llywodraeth y DU a byddant yn hunandwysedig, a fydd yn cynnwys 10 modiwl o ryw 1 awr y sesiwn. Y bwriad yw ei lansio ym mis Mawrth/Ebrill 2024.
- 17.3 Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn ychwanegu at eDdysgu Llywodraeth y DU gyda 6 modiwl ychwanegol sy'n canolbwyntio ar feysydd blaenoriaeth a nodwyd gan ACCau drwy arolwg gan Lywodraeth Cymru (gweler isod). Bydd yr e-Ddysgu atodol hwn wedi'i anelu at ymarferwyr caffael a masnachol Cymru, a phersonél eraill sy'n ymgymryd â gweithgarwch caffael yn rheolaidd neu sydd angen dealltwriaeth ddyfnach o'r tirwedd deddfwriaethol caffael yng Nghymru.
- 17.4 Bydd eDdysgu Llywodraeth Cymru yn ymdrin â meysydd o ddiddordeb penodol i ACCau, gan gynnwys:
  - Y newid yn y tirwedd caffael yng Nghymru
  - Cysylltiadau rhwng y Ddeddf Caffael, y Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023, a Deddf Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru)
  - Gweithdrefnau
  - Gofynion tryloywder
  - Cytundebau Fframwaith a Marchnadoedd Deinamig
  - Hysbysiadau Caffael

- 17.5 Ni fydd cost i Lywodraeth Cymru am ddatblygu'r 10 modiwl e-Ddysgu sy'n cael eu datblygu gan Lywodraeth y DU. Mae'r modiwlau penodol i Gymru yn cael eu datblygu'n fewnol ar hyn o bryd ac mae amcangyfrif o'r hyn a fydd yn cael ei gynnwys ym mhob modiwl a faint o ddeunydd fydd ei angen wedi'i wneud i gyfrifo'r costau posibl.
- 17.6 Bydd y modiwlau e-Ddysgu penodol i Gymru yn cael eu cynnal ar lwyfan dysgu'r GIG. Ni fydd cost i gyfieithu, creu, cynnal a chadw'r modiwlau e-Ddysgu ar lwyfan y GIG gan fod hyn yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru ac felly nid oes cost gwasanaeth.
- 17.7 Rhagwelir y bydd yn cymryd tua 2 wythnos i ddatblygu pob modiwl, o ddrafftio, profi ac uwchlwytho. Mae hyn yn seiliedig ar yr amser blaenorol a gymerwyd i baratoi mathau tebyg o ddysgu.
- 17.8 Bydd chwe modiwl e-Ddysgu Llywodraeth Cymru a fydd, yn ôl y disgwyl, yn 1500 o eiriau yr un. Amcangyfrifwyd hefyd y bydd tua 1952 o hyfforddeion yn dymuno cael mynediad at yr hyfforddiant hwn.
- 17.9 Yn seiliedig ar y niferoedd a amcangyfrifir uchod, amcangyfrifir bod cyfanswm y gost ar gyfer datblygu'r chwe modiwl e-Ddysgu ychydig dros £9,000.
- 17.10 Yr amcangyfrif o'r gost i ACCau ymgymryd â'r hyfforddiant yw £662,000. Mae'r dadansoddiad manwl o'r holl gostau amcangyfrifedig i Gymru ar gyfer yr e-Ddysgu ar gael yn Atodiad 2, tabl 2.

## **18. Archwiliadau Dwfn**

- 18.1 Wedi'u dylunio ar gyfer ymarferwyr caffael arbenigol, bydd yr 'archwiliadau dwfn' hyn yn rhoi dealltwriaeth ddyfnach ar gymhwysu'r newidiadau deddfwriaethol. Bydd y cwrs yn cael ei gynnal dros dridiau yn olynol, a bydd yn ddosbarth rhithwir rhyngweithiol dan arweiniad hyfforddwr mewn carfannau bach. Bydd chwe phwnc gwahanol a bydd cyfranogwyr yn cael tystysgrif presenoldeb ac e-fathodyn.
- 18.2 Er mwyn sicrhau cysondeb, bydd Llywodraeth y DU yn rhannu deunyddiau hyfforddi ei Harchwiliadau Dwfn gyda Llywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth y DU wedi amcangyfrif y bydd sesiynau'r Archwiliadau Dwfn yn para tua 20 awr ar gyfer pob mynychwr. Nid oes unrhyw gostau datblygu sy'n gysylltiedig â'r archwiliadau dwfn gan eu bod yn cael eu creu gan Lywodraeth y DU.
- 18.3 Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn sicrhau bod yr archwiliadau dwfn ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg a fydd yn cael eu darparu gan hyfforddwr allanol. Bydd y sleidiau a'r deunyddiau hyfforddi hefyd yn cael eu darparu yn Gymraeg. Bydd y sesiynau hyn yn cael eu cynnal yn rhithiol a fydd yn arwain at ddim cost.
- 18.4 Amcangyfrifir y gofynion cyfieithu ar gyfer sesiynau'r archwiliadau dwfn hyn fel a ganlyn:

- Mae'r deciau sleidiau yn rhyw 8900 o eiriau
  - Mae'r deunyddiau hyfforddi yn rhyw 8700 o eiriau
- 18.5 Mae'r ffigurau hyn yn seiliedig ar gwrs hyfforddi rhithwir is-ddeddfwriaeth Llywodraeth Cymru. Cymerwyd y costau cyfieithu o Fframwaith Cyfieithu'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol ac ar gyfer cyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg mae 1000 o eiriau yn £64.00. Felly, rhagwelir y bydd y costau cyfieithu oddeutu £1,000 (gweler tabl 3 yn Atodiad 2 am ragor o wybodaeth).
- 18.6 Rhagwelir y bydd tua 850 o bobl o Gymru yn cymryd rhan yn yr hyfforddiant archwiliadau dwfn. Mae disgwyl y bydd 8% yn mynegi diddordeb mewn cael yr hyfforddiant hwn drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r ffigur hwn yn seiliedig ar sesiynau dysgu dros ginio blaenorol, lle roedd 4% o'r mynychwyr yn dymuno iddynt gael eu cynnal yn Gymraeg. Disgwylir fodd bynnag y bydd yn fwy na 4% ar gyfer y sesiynau archwilio dwfn gan y byddant yn sesiynau mwy rhyngweithiol ac mae'n bosibl y bydd rhanddeiliaid ychwanegol i'r rhai a fynychodd y sesiynau dysgu dros ginio am gael yr hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg. Felly, mae 8% o'r 850 o unigolion yn gyfwerth â thua 68 o hyfforddeion. Bydd uchafswm o 15 o hyfforddeion ym mhob digwyddiad sy'n golygu y bydd angen tua 5 sesiwn drwy gyfrwng y Gymraeg.
- 18.7 Amcangyfrifir y bydd yr archwiliadau dwfn yn cael eu lansio ym mis Mai 2024 gyda'r bwriad o'u cynnal dros gyfnod o 12 mis.
- 18.8 Bydd angen 2.5 diwrnod ychwanegol ar yr hyfforddwr i baratoi ar gyfer y sesiwn archwilio dwfn. Rhagwelir felly y bydd cyfanswm y gost i gyflwyno'r hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg oddeutu £17,000 yn unol â thabl 3 o Atodiad 2.
- 18.9 Yn ogystal, cost adnoddau ACCau i ymgymryd â'r hyfforddiant yw tua £360,000 yn unol â thabl 3 o Atodiad 2.

## **19. Canllawiau Ysgrifenedig**

- 19.1 Bydd canllawiau ysgrifenedig yn ategu'r holl Ddysgu a Datblygu i helpu prynwyr i ddeall yr hyn y mae'r ddeddfwriaeth yn ei ddweud a pham. Rhagwelir y bydd angen datblygu tua 56 maes o ganllawiau gan ddefnyddio adnoddau presennol Llywodraeth Cymru.
- 19.2 Amcangyfrifir y bydd datblygu'r canllawiau yn cymryd tua 8 awr o amser swyddogion Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar y canllawiau sydd eisoes wedi'u drafftio. Amcangyfrifir felly mai cyfanswm y gost ar gyfer amser swyddogion Llywodraeth Cymru i ddatblygu'r canllawiau i gyd yw ychydig dros £9,000.
- 19.3 Disgwylir y bydd y nifer cyfartalog o eiriau fesul darn o ganllawiau tua 2,500. Cymerwyd y costau cyfieithu o Fframwaith Cyfieithu'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol ac ar gyfer cyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg bydd

1000 o eiriau yn £64.00. Felly, amcangyfrifir bod y gost gyfieithu bron yn £9mil.

- 19.4 Cyfanswm y gost ar gyfer datblygu'r canllawiau yw ychydig dros £18,000. Gweler tabl 4 o Atodiad 2 am y manylion llawn.

## 20. Cymunedau Ymarfer

- 20.1 Bydd y dysgu a'r datblygu ffurfiol yn cael ei gefnogi gan Gymunedau Ymarfer ar gyfer gweithwyr proffesiynol masnachol/caffael ar draws y llywodraeth ganolog a'r sector cyhoeddus ehangach. Gyda chefnogaeth tîm canolog ac uwchddefnyddwyr, bydd y cymunedau hyn yn helpu unigolion i ymgorffori'r hyn y maent wedi'i ddysgu a darparu cyfleoedd i grwpiau ddod at ei gilydd a meithrin dull cydweithredol o ddysgu, drwy rannu arferion gorau, dulliau arloesol a heriau.
- 20.2 Bydd hyn ar ffurf cyfarfodydd a all fod ar-lein/wyneb yn wyneb, ac ni fydd cost i Lywodraeth Cymru. Disgwylir iddynt ddechrau ym mis Mai 2024.

## 21. Costau Cyffredinol

- 21.1 Nid yw'r hyfforddiant a gynigir yn orfodol. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn argymhell bod staff masnachol a chaffael yn y sector cyhoeddus yn ymgymryd â'r eDdysgu i ddangos eu bod wedi cael eu hyfforddi a bod ganddynt y ddealltwriaeth i weithredu o dan y gyfundrefn newydd. Bydd aelodau rhai cyrff proffesiynol yn gallu hawlio oriau Datblygiad Proffesiynol Parhaus am yr amser y maent yn ei dreulio i gwblhau'r rhaglen ddysgu.
- 21.2 Amcangyfrifir y bydd cyfanswm cyffredinol y costau sy'n gysylltiedig ag opsiwn 2 yn £1,417,300 fel y crynhoir isod:

## 22. CRYNODEB O'R COSTAU CYFFREDINOL A AMCANGYFRIFIR – OPSIWN 2

Mae'r holl gostau a restrir isod yn eithrio TAW

### 22.1 Cyfanswm y Costau Galluogi Digidol

GwerthwchiGymru	£350,000
<b>CYFANSWM</b>	<b>£350,000</b>

### 22.2 Cyfanswm y costau Dysgu a Datblygu

Cost y Deunyddiau Gwybodaeth	£100.00
Cost yr E-Ddysgu	£9,400
Cost yr Archwiliadau Dwfn	£16,900
Costau'r canllawiau	£18,500
<b>Cyfanswm y Gost Dysgu a Datblygu</b>	<b>£44,900</b>

### 22.3 Cyfanswm y gost i ACCau fynychu hyfforddiant

Hyfforddeion eDdysgu	£662,000
Hyfforddeion Archwiliadau Dwfn	£360,400
<b>CYFANSWM</b>	<b>£1,002,400</b>

<b>Cyfanswm Costau Cyffredinol Opsiwn 2 (Is-ddeddfwriaeth)</b>	<b>£1,417,300</b>
--	-------------------

### 23. Asesu'r gystadleuaeth

Prawf hidlo'r gystadleuaeth	
Cwestiwn	Atebwch yn gadarnhaol neu'n negyddol
<b>C1:</b> Yn y farchnad/marchnadoedd y mae'r rheoliad newydd yn effeithio arni/arnynt, a oes gan unrhyw gwmni gyfran o fwy na 10% o'r farchnad?	Nac oes
<b>C2:</b> Yn y farchnad/marchnadoedd y bydd y rheoliad newydd yn effeithio arni/arnynt, a oes unrhyw gwmni â mwy nag 20% o gyfran y farchnad?	Nac oes
<b>C3:</b> Yn y farchnad/marchnadoedd y bydd y rheoliad newydd yn effeithio arni/arnynt, a oes gan y tri chwmni mwyaf gyda'i gilydd 50% o gyfran y farchnad o leiaf?	Nac oes
<b>C4:</b> A fyddai costau'r rheoliad yn effeithio ar rai cwmnïau yn fwy o lawer nag eraill?	Na fyddai
<b>C5:</b> A yw'r rheoliad yn debygol o effeithio ar strwythur y farchnad, gan newid nifer neu faint y cwmnïau?	Nac ydy
<b>C6:</b> A fyddai'r rheoliad yn arwain at gostau sefydlu uwch i gyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr, sy'n gostau nad oes yn rhaid i gyflenwyr presennol eu talu?	Na fyddai
<b>C7:</b> A fyddai'r rheoliad yn arwain at gostau rheolaidd uwch i gyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr, sy'n gostau nad oes yn rhaid i gyflenwyr presennol eu talu?	Na fyddai
<b>C8:</b> A yw newid technolegol cyflym yn un o nodweddion y sector?	Nac ydy
<b>C9:</b> A fyddai'r rheoliad yn cyfyngu ar allu cyflenwyr i ddewis pris, ansawdd, amrywiaeth neu leoliad eu cynhyrchion?	Na fyddai

23.1 Nid yw'n debygol y bydd unrhyw effeithiau niweidiol ar gystadleuaeth. Bydd y Rheoliadau hyn yn galluogi mwy o hyblygrwydd i gyflenwyr, a'r

gobaith yw y bydd hyn yn annog newydd-ddyfodiaid i'r farchnad, a thrwy hynny ddarparu mwy o gystadleuaeth yn sgil mynediad at ystod fwy amrywiol o gyflenwyr a chynyddu nifer y ceisiadau caffael cyhoeddus.

- 23.2 Bydd cyflenwyr yn gallu cynnig atebion mwy arloesol yn y broses caffael cyhoeddus. Bydd arbedion amser hefyd i gyflenwyr rhag gorfod cwblhau gwybodaeth dendro y maent eisoes wedi'i lanlwytho a'i harbed i'r plattform digidol canolog. Y gobaith yw y bydd hyn oll yn helpu i ysgogi hyder yn y broses ymgeisio a thrwy hynny gynyddu cystadleuaeth.

## **24. Adolygiad ar ôl Gweithredu**

- 24.1 Bydd y darpariaethau tryloywder newydd o fewn y Rheoliadau a'r Ddeddf Caffael gysylltiedig yn cynyddu argaeledd data dibynadwy a chadarn, a fydd o gymorth i lywio'r broses o wneud penderfyniadau, a nodi a monitro tueddiadau.

- 24.2 Mae'r Ddeddf Caffael hefyd yn cynnwys pwerau annibynnol, cyfatebol i wneud rheoliadau yn rhan fwyaf o feysydd y Ddeddf. Bydd y darpariaethau tryloywder wedi'u gwella a'r data sy'n deillio o hynny yn ei gwneud yn bosibl nodi a dadansoddi tueddiadau systemig y gellir eu defnyddio i ganfod meysydd lle mae angen ymyrraeth a champau unioni, ac i hyrwyddo gwell penderfyniadau polisi yn y dyfodol.

## ATODIAD 1 – Amcangyfrif o Gostau Opsiwn 1

### Mae'r holl gostau a restrir isod yn eithrio TAW

Tabl 1 – Amcangyfrif o'r gost adnoddau ar gyfer trosleisio Deunyddiau Gwybodaeth Llywodraeth Cymru

Nifer yr oriau	Cyflog canolrifol yr awr*	Cyfanswm y Gost
4	£21.20	£84.80

Tabl 2 – Amcangyfrif o'r gost adnoddau i ACCau fynychu eDdysgu Llywodraeth Cymru

Nifer y modiwlau e-ddysgu (10 Llywodraeth y DU)	Cyfanswm yr amser ar gyfer cwblhau (1 awr y modiwl)	Nifer yr hyfforddeion	Cyflog Canolrifol yr awr*	Cyfanswm cost fesul hyfforddai i gwblhau pob modiwl	Cyfanswm y Gost
6	6 awr	1952	21.20	£127.20	£248,294.40

Tabl 3: Amcangyfrif o'r costau datblygu ar gyfer eDdysgu Llywodraeth Cymru

Nifer y modiwlau e-ddysgu	Amser i greu pob modiwl	Cyflog Canolrifol yr awr*	Cyfanswm cost y ddogfen	Cyfanswm y Gost
6	74 awr	21.20	£1,568.80	£9,412.80

**CYFANSWM Cost Opsiwn 1** **£257,792**

\*Mae'r cyflog canolrifol yn cael ei gymryd o ddata'r Arolwg Blynyddol ar gyfer Oriau ac Enillion (ASHE) ar gyfer "Prynwr a Swyddog Caffael" 2022, pan fo'r cyflog canolrifol yr awr yn £16.30. 30% o argost yn ogystal.

## ATODIAD 2 – Amcangyfrif o Gostau Opsiwn 2

### Mae'r holl gostau a restrir isod yn eithrio TAW

Tabl 1 – Costau ar gyfer Galluogi Digidol

<b>CYFANSWM y Gost Ddigidol</b>	<b>£350,000</b>
---------------------------------	-----------------

Tabl 1 – Amcangyfrif o'r gost adnoddau ar gyfer trosleisio Deunyddiau Gwybodaeth Llywodraeth Cymru

Nifer yr oriau	Cyflog canolrifol yr awr*	Cyfanswm y Gost
4	£21.20	£84.80

<b>CYFANSWM Cost y Deunyddiau Gwybodaeth</b>	<b>£84.80</b>
--	---------------

Tabl 2: Amcangyfrif o'r costau ar gyfer e-ddysgu

Amcangyfrif o'r costau datblygu:

Nifer y modiwlau e-ddysgu	Amser i greu pob modiwl	Cyflog Canolrifol yr awr*	Cyfanswm cost y ddogfen	Cyfanswm y Gost
6	74 awr	21.20	£1,568.80	£9,412.80

Amcangyfrif o'r gost adnoddau i ACCau fynychu eDdysgu:

Nifer y modiwlau e-ddysgu (10 Llywodraeth y DU a 6 Llywodraeth Cymru)	Cyfanswm yr amser ar gyfer cwblhau (1 awr y modiwl)	Nifer yr hyfforddeion	Cyflog Canolrifol yr awr*	Cyfanswm cost fesul hyfforddai i gwblhau pob modiwl	Cyfanswm y Gost
16	16 awr	1952	21.20	£339.20	<b>£662,118.40</b>

<b>CYFANSWM y gost eDdysgu</b>	<b>£671,530</b>
--------------------------------	-----------------

\*Mae'r cyflog canolrifol yn cael ei gymryd o ddata'r Arolwg Blynyddol ar gyfer Oriau ac Enillion (ASHE) ar gyfer "Prynwr a Swyddog Caffael" 2022, pan fo'r cyflog canolrifol yr awr yn £16.30. 30% o argost yn ogystal.

**Tabl 3 – Amcangyfrif o'r costau ar gyfer Archwiliadau Dwfn**

**Amcangyfrif o gostau hyfforddwr:**

Nifer y sesiynau hyfforddi ar gyfer archwiliadau dwfn	Nifer y dyddiau ar gyfer pob cwrs	Cost y dydd ar gyfer hyfforddwr Cymraeg	Cyfanswm y gost ar gyfer archwiliadau dwfn	Cyfanswm y Gost
5	3 diwrnod	£900.00	£2,700	<b>£13,500</b>

Diwrnodau paratoi yr hyfforddwr	Cost hyfforddwr Cymraeg fesul diwrnod	Cyfanswm cost
2.5 diwrnod	£900	<b>£2,250</b>

**Amcangyfrif o'r costau cyfieithu:**

	Cyfanswm ar gyfer 3 diwrnod o hyfforddiant	Cost fesul 1000 o eiriau o gyfieithu	Cyfanswm y Gost
Deunyddiau Hyfforddi	8,700	£64.00	£558.14
Deciau sleidiau	8,900	£64.00	£570.24
		<b>CYFANSWM</b>	<b>£1,128.38</b>

**Amcangyfrif o'r costau adnoddau i ACCau fynychu hyfforddiant:**

Amser i gwblhau Archwiliadau Dwfn	Nifer yr hyfforddeion	Cyflog Canolrifol yr awr*	Cyfanswm cost fesul hyfforddai	Cyfanswm y Gost
20 awr	850	21.20	£424.00	<b>£360,400</b>

<b>CYFANSWM y Gost ar gyfer Archwiliadau Dwfn</b>	<b>£377,278.38</b>
---	--------------------

\*Mae'r cyflog canolrifol yn cael ei gymryd o ddata'r Arolwg Blynyddol ar gyfer Oriau ac Enillion (ASHE) ar gyfer "Prynwr a Swyddog Caffael" 2022, pan fo'r cyflog canolrifol yr awr yn £16.30. Argost o 30% yn ogystal.

#### Tabl 4 – Costau ar gyfer datblygu Canllawiau

Amcangyfrif o'r gost cyfieithu:

Nifer y Dogfennau Cyfarwyddyd	Amcangyfrif o nifer y geiriau fesul dogfen	Cost fesul 1000 o eiriau o gyfieithu	Cost ar gyfer pob darn o ganllawiau	Cyfanswm y Gost
56	2,500	£64.00	£160.00	<b>£8,960</b>

Amcangyfrif o'r costau datblygu:

Nifer y Dogfennau Cyfarwyddyd	Amser i greu dogfen	Cyflog Canolrifol yr awr*	Cyfanswm cost y ddogfen	Cyfanswm y Gost
56	8 awr	21.20	£169.60	<b>£9,497.60</b>

<b>CYFANSWM y Gost ar gyfer Canllawiau</b>	<b>£18,457.60</b>
--	-------------------

\*Mae'r cyflog canolrifol yn cael ei gymryd o ddata'r Arolwg Blynyddol ar gyfer Oriau ac Enillion (ASHE) ar gyfer "Prynwr a Swyddog Caffael" 2022, pan fo'r cyflog canolrifol yr awr yn £16.30. Argost o 30% yn ogystal.

<b>CYFANSWM Cost Opsiwn 2</b>	<b>£1,417,300</b>
-------------------------------	-------------------